Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Ffurflen

LPA120

Cymorth i dalu ffioedd atwrneiaeth

Defnyddiwch y ffurflen hon os ydych chi'n gwneud cais i gofrestru atwrneiaeth arhosol (LPA) neu atwrneiaeth barhaus (EPA).

Gallwch chi wneud cais am un o'r canlynol:

- **esemptiad** - peidio â thalu dim o ffioedd yr atwrneiaeth
- **gostyngiad** - talu hanner ffioedd yr atwrneiaeth

I ble ddylech chi anfon y ffurflen wedi'i llenwi:

Postiwch hi at:

Office of the Public Guardian
PO Box 16185
Birmingham
B2 2WH

I ofyn am y ffurflen hon yn Saesneg, Braille, sain neu brint bras, anfonwch e-bost atom yn:

customerservices@publicguardian.gov.uk

Ffioedd atwrneiaeth

Trosolwg

Mae'r ffi am gofrestru atwrneiaeth arhosol (LPA) neu atwrneiaeth barhaus (EPA) yn cael ei thalu pan fyddwch yn anfon y ffurflen atwrneiaeth i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus. Mewn rhai amgylchiadau, mae gan roddwr hawl i dalu llai na'r ffi lawn am ei atwrneiaeth.

Ystyr **esemptiad** yw nad oes rhaid i'r rhoddwr dalu unrhyw ffi. Y rheswm am hyn yw ei fod yn cael rhai budd-daliadau sy'n dibynnu ar brawf modd.

Ystyr **gostyngiad** yw bod y rhoddwr yn talu hanner y ffi. Mae hyn yn dibynnu ar ei amgylchiadau.

Dim ond ar yr un pryd ag y byddwch chi'n gwneud cais i gofrestru eich LPA neu EPA y gallwch chi wneud cais i beidio â thalu ffi neu i dalu ffi ostyngol. Ni fyddwn yn ystyried unrhyw geisiadau a wneir ar ôl hynny. Ni fydd unrhyw ffioedd yn cael eu had-dalu.

Faint fyddaf i'n ei dalu gyda gostyngiad?

Os oes gennych chi hawl i gael gostyngiad, byddwch chi'n talu £46 i wneud cais i gofrestru LPA neu EPA.

Os ydych chi'n ailgyflwyno cais am LPA a bod gennych chi hawl i gael gostyngiad, fel y cytunwyd gan Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus, byddwch chi'n talu £23 am LPA neu EPA.

Esemptiad – dim angen talu ffi

Mae'n bosibl na fydd yn rhaid i'r rhoddwr dalu ffioedd atwrneiaeth os yw'n cael un o'r budd-daliadau hyn sy'n dibynnu ar brawf modd:

- Elfen Gwarant Credyd y Credyd Pensiwn
- Budd-dal y dreth gyngor (nid y gostyngiad 25% ar gyfer person sengl neu esemptiad ar sail feddygol)
- Budd-dal tai (nad yw'n rhan o'r Credyd Cynhwysol)

Ni fydd y rhoddwr yn gymwys i gael esemptiad os dyfarnwyd iawndal anaf personol o fwy nag £16,000 i'r rhoddwr (hyd yn oed os anwybyddwyd y swm hwn pan aseswyd ef am y budd-dal). Mae dyfarniadau iawndal yn cynnwys taliadau a geir o ganlyniad i esgeulustod troseddol neu feddygol.

Tystiolaeth Dderbyniol:

Rhaid i chi anfon llythyr hawl gan ddarparwr y budd-dal atom sy'n:

- nodi teitl, enw llawn, cyfeiriad a chod post y rhoddwr
- nodi'r swm o fudd-daliadau a gafwyd
- nodi dyddiadau talu'r budd-daliadau
- perthyn i'r flwyddyn ariannol dan sylw (blwyddyn ariannol yw'r cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth)
- cael ei gyflwyno ar yr un pryd ag yr anfonir yr atwrneiaeth i Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Os ydych chi'n anfon tystiolaeth ar gyfer elfen Gwarant Credyd y Credyd Pensiwn, yna bydd angen i chi anfon y dadansoddiad llawn yn nodi'r elfen warantedig.

Gostyngiad - talu hanner y ffi

Mae'n bosibl mai dim ond hanner y ffi y bydd yn rhaid i chi ei dalu os yw incwm blynyddol y rhoddwr cyn treth yn £12,000 neu lai.

Tystiolaeth dderbyniol:

Rhaid i unrhyw dystiolaeth a anfonwch:

- gynnwys swm a math o incwm y rhoddwr
- cynnwys teitl y rhoddwr, ei enw llawn, ei gyfeiriad hysbys diwethaf a'r cod post
- cael ei chyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol (y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Mawrth)

Bydd angen i chi hefyd roi tystiolaeth ychwanegol ar gyfer y canlynol.

Cyflogaeth am dâl

Y tri slip cyflog olynol diwethaf o gyflogaeth gyfredol.

Hunangyflogaeth

Y ffurflen dreth ddiweddaraf (hunanasesiad) neu gyfrifiad treth diweddaraf CThEF.

Budd-daliadau nad ydynt yn dibynnu ar brawf modd

Er enghraifft, Lwfans Gweini (AA), Lwfans Byw i'r Anabl (DLA) a Thaliad Annibyniaeth Personol (PIP) – llythyr swyddogol neu hysbysiad gan ddarparwr y budd-dal.

Pensiwn y Wladwriaeth

Llythyr gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn dangos swm ac amlder y taliadau a ddyfarnwyd.

Credyd Cynhwysol (gan gynnwys budd-dal tai)

12 mis o ddatganiadau llawn o wefan Credyd Cynhwysol yn dangos swm ac amlder y taliadau a ddyfarnwyd, gan gynnwys dadansoddiad o'r elfennau.

Os yw'r rhoddwr wedi cael Credyd Cynhwysol am lai na 12 mis, mae angen rhagor o dystiolaeth arnom o sut y cynhaliodd ei hun o fewn y cyfnod hwnnw.

Pensiynau preifat a phensiynau cwmni a'r sector cyhoeddus, gan gynnwys pensiwn sy'n cael ei dynnu i lawr

Llythyr neu hysbysiad gan y darparwr pensiwn yn dangos swm gros ac amlder y taliadau, neu ddau slip talu olynol sy'n cadarnhau'r swm gros a dalwyd.

Llog a difidendau o gynilion, cyfalaf, stociau, cyfranddaliadau neu fondiau

Cyfriflenni, talebau neu dystysgrifau treth yn nodi cyfanswm incwm cyn treth.

Incwm rhent o eiddo

Copïau o gytundebau tenantiaeth neu lesoedd ar gyfer pob eiddo sy'n dangos swm y rhent sy'n cael ei dalu ar hyn o bryd a pha mor aml mae'n cael ei dalu, a'r ffurflen dreth ddiweddaraf neu gyfrifiad treth diweddaraf CThEF.

Incwm a dderbyniwyd gan y rhoddwr gan unigolion

Er enghraifft, lletywr, tenant neu berthynas: copïau o ddatganiadau rhent a dalwyd i'r rhoddwr.

Os nad oes gan y rhoddwr incwm

Datganiad wedi'i lofnodi yn egluro sut maen nhw'n cynnal eu hunain yn ariannol.

Caledi

Os nad yw'r rhoddwr yn gymwys i gael esemptiad neu ostyngiad, ac y byddai talu ffioedd yn achosi caledi ariannol, gallwch chi ysgrifennu at atom i ofyn am ostyngiad yn y ffi. 'Cais caledi' ydy'r enw ar hyn.

Os ydych chi am gyflwyno cais caledi, dylech chi gynnwys cais ysgrifenedig gyda'r ceisiadau am atwrneiaeth a'r ffurflen LPA120. Byddwn wedyn yn gofyn i chi am yr wybodaeth berthnasol.

Adolygu penderfyniadau ynghylch esemptiad a gostyngiad

Os yw eich cais wedi cael ei wrthod a bod gennych reswm i gredu na ddylai fod wedi cael ei wrthod, gallwch ofyn am adolygiad o'r penderfyniad.

Rhaid i'r cais ddod i law o fewn 28 diwrnod ar ôl dyddiad y llythyr a oedd yn nodi canlyniad eich cais gwreiddiol. Rhaid iddo gael ei gyflwyno'n ysgrifenedig, gan roi'r rhesymau pam eich bod yn gwneud cais am yr adolygiad. Dylech gynnwys unrhyw ddogfennau a fydd, yn eich barn chi, yn ategu eich cais.

Byddwn yn adolygu'r cais ac yn penderfynu a oes digon o dystiolaeth i wrthdroi neu ddiwygio'r penderfyniad gwreiddiol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y penderfyniad o fewn 21 diwrnod. Os oes ffi yn dal i fod yn daladwy, cewch wybod am hyn hefyd.

Ni allwch wneud ceisiadau pellach i adolygu'r un cais.

Sylwch:

Os na fyddwn yn cael y dystiolaeth sydd ei hangen i ategu eich cais, neu os nad yw'r dystiolaeth a gafwyd yn bodloni'r gofynion, efallai y byddwn yn ei wrthod.

Efallai y byddwn yn gofyn am fwy o dystiolaeth i ategu eich cais. Os na fyddwch chi'n darparu hyn, efallai y bydd eich cais yn cael ei wrthod, a bydd yn rhaid i chi dalu'r ffi lawn am eich atwrneiaeth.

Sut mae gwneud cais

Anfonwch y ffurflen LPA120, y dystiolaeth ategol a'r dogfennau atwrneiaeth i:

Office of the Public Guardian

PO Box 16185

Birmingham

B2 2WH

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn 0300 456 0300
- Ffonio o'r tu allan i'r DU: +44 (0)203 518 9639
- Relay UK (os na allwch chi glywed neu siarad ar y ffôn): 18001 0300 123 1300.

Ar agor 9am i 5pm ar ddyddiau'r wythnos, ac eithrio dydd Mercher 10am i 5pm

Rhaid i chi anfon eich cais LPA120 a'ch tystiolaeth ategol atom ar yr un pryd ag y byddwch yn anfon eich atwrneiaeth i wneud cais i gofrestru.

Gallwn dderbyn copïau wedi'u sganio neu gopïau ffotograffig o'r LPA120 a'r dystiolaeth ategol. Gwnewch yn siwr bod popeth yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.

Sut i dalu

Defnyddio cerdyn debyd neu gredyd

Os ydych chi'n gwneud eich LPA gan ddefnyddio'r adnodd LPA digidol, gallwch dalu'n ddiogel ar-lein gyda cherdyn credyd neu ddebyd.

Os nad ydych chi'n defnyddio'r adnodd LPA digidol, defnyddiwch adran 14 y ffurflen gais LPA i ddewis talu â cherdyn a rhoi eich rhif ffôn. Byddwn yn cysylltu â chi drwy'r post gyda gwybodaeth am sut gallwch chi dalu ar-lein neu dros y ffôn gan ddefnyddio eich cerdyn credyd neu ddebyd. Os byddwch chi'n rhoi eich rhif ffôn symudol, byddwn hefyd yn anfon dolen atoch i dalu ar-lein.

Os ydych chi'n gwneud cais am gymorth gyda ffioedd EPA, defnyddiwch ran 9 y ffurflen EP2PG ac ychwanegwch eich rhif ffôn at ran 12.

Taliad siec

Gwnewch eich siec yn daladwy i 'Office of the Public Guardian', ac ysgrifennwch enw llawn a chod post y rhoddwr ar y cefn.

Saesneg a fformatau eraill

I ofyn am y ffurflen hon yn Saesneg, Braille, sain neu brint bras, anfonwch e-bost atom yn:

customerservices@publicguardian.gov.uk

Cofiwch gynnwys eich cyfeiriad a'r fformat a ddymunwch.

Swyddfa'r Gwarcheidwad Cyhoeddus

Ffurflenm

LPA120

Cymorth i dalu ffioedd atwrneiaeth (LPA)

Adran 1
Manylion y rhoddwr

1.1

Teitl | Enw llawn

Cyfeiriad

Cod post

Ffôn (gan gynnwys ffonau symudol)

E-bost

Adran 2
Y cais

2.1

Pa ffi ydych chi'n gwneud cais am gymorth i'w thalu?

- ☐ LPA ar gyfer eiddo a materion ariannol
- ☐ LPA ar gyfer lles personol
- ☐ EPA
- ☐ Ailgyflwyno cais am LPA ar gyfer eiddo a materion ariannol
- ☐ Ailgyflwyno cais am LPA ar gyfer lles personol

2.2

Os ydych chi'n ailgyflwyno cais, rhowch unrhyw gyfeirnodau LPA blaenorol

Mae'r rhain i'w gweld ar y llythyrau rydym wedi'u hanfon atoch chi

2.3

Rhaid i chi gynnwys unrhyw LPA neu EPA rydych chi am ei chofrestru gyda'r cais hwn, yn yr amlen

- ☐ Ydw, rwyf wedi amgáu'r holl ddogfennau yr wyf am eu cofrestru

Os ydych chi'n gwneud cais am esemptiad (i beidio â thalu ffi), ewch i Adran 3.

Os ydych chi'n gwneud cais am ostyngiad (i dalu hanner ffi), ewch i Adran 4.

Adran 3
Gwneud cais am esemptiad

Os yw'r rhoddwr yn cael unrhyw un o'r budd-daliadau canlynol, mae'n bosibl na fydd yn rhaid iddo dalu ffi am ei atwrneiaeth.

Atebwch bob cwestiwn yn yr adran hon.

Bydd angen i chi hefyd anfon tystiolaeth atom. Darllenwch y canllawiau ar ddechrau'r ffurflen hon i weld pa dystiolaeth sydd ei hangen arnom.

3.1

Pa rai o'r budd-daliadau hyn y mae'r rhoddwr yn eu derbyn?

☐ Elfen Gwarant Credyd Pensiwn y Wladwriaeth

☐ Cymorth gyda'r Dreth Gyngor/gostyngiad yn y Dreth Gyngor (nid yw hyn yn cynnwys disgownt oherwydd anabledd neu anfeddiannaeth nac esemptiad Dosbarth U)

☐ Budd-dal tai (nad yw'n rhan o'r Credyd Cynhwysol)

3.2

A yw'r rhoddwr wedi cael iawndal anaf personol?

Os yw'r rhoddwr wedi cael iawndal anaf personol o fwy nag £16,000, a gafodd ei anwybyddu pan gafodd ei asesu ar gyfer un o'r budd-daliadau uchod, ni fydd yn gymwys am esemptiad.

Cadarnhewch un o'r dewisiadau canlynol

☐ Nid yw'r rhoddwr wedi cael unrhyw daliadau anaf personol

☐ Mae'r rhoddwr wedi cael taliadau anaf personol, ond roeddent yn llai nag £16,000

☐ Roedd cyfanswm y taliadau dros £16,000, ond cawsant eu hanwybyddu pan gafodd y rhoddwr ei asesu ar gyfer un o'r budd-daliadau a nodir uchod

Adran 4
Gwneud cais am ostyngiad

4.1

Os yw cyfanswm incwm blynyddol y rhoddwr cyn treth (incwm blynyddol gros) yn £12,000 neu lai, mae'n bosibl y bydd yn gymwys i dalu hanner ffi.

☐ Rwy'n cadarnhau bod incwm y rhoddwr yn £12,000 neu lai cyn treth

Llenwch y tabl isod i gadarnhau incwm y rhoddwr o bob ffynhonnell.

Bydd angen i chi hefyd anfon tystiolaeth atom. Darllenwch y canllawiau ar ddechrau'r ffurflen hon i weld pa dystiolaeth sydd ei hangen arnom.

Darparwr Taliad neu Fudd-dal	**Cyfanswm Derbyniadau Blynyddol**
Lwfans Gweini	£
Lwfans Byw i'r Anabl	£
Taliad Annibyniaeth Personol	£
Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Gyfraniadau	£
Credyd Cynilion Pensiwn	£
Pensiwn y Wladwriaeth	£
Pensiynau preifat	£
Incwm rhent o eiddo	£
Incwm o gyflogaeth	£
Llog o fuddsoddiadau cyfalaf a chynilion	£
Credyd Cynhwysol	£
Math arall o incwm	£
Cyfanswm	**£**

Os oes gennych chi unrhyw fath arall o incwm, cadarnhewch ei ffynhonnell

Adran 5
Datganiad

5.1

☐ Rwyf wedi ychwanegu tystiolaeth i ategu'r cais hwn



Darllenwch y canllawiau ar ddechrau'r ffurflen hon i weld pa dystiolaeth sydd ei hangen arnom

5.2

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth yr wyf wedi'i rhoi yn gywir, hyd eithaf fy ngwybodaeth

Llofnod

Enw

Dyddiad llofnodi

Diwrnod		Mis		Blwyddyn			